WESTERN POWER DISTRIBUTION
Gwasanaethu'r De Orllewin a Chymru

WESTERN POWER DISTRIBUTION
(South West) ccc a (De Cymru) ccc

DATGANIAD ATODIAD 9

Mae'r datganiad hwn yn cael ei ddarparu dan Atodiad 9 y Ddeddf Trydan 1989 fel y'i gwellwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000.

Caiff De Cymru a De Orllewin Lloegr ei gydnabod am ei gefn gwlad, arfordir dramatig a thir garw. Mae Western Power Distribution (WPD) yn sylweddoli bod y fath amgylchedd yn galw am ofal ac ystyriaeth ac mae WPD yn gobeithio cyrraedd y nod hwn drwy ei bolisi amgylcheddol.

Dyletswyddau:- Mae WPD wedi ei drwyddedu i ddosbarthu trydan drwy ei systemau trydan yn Ne Orllewin Lloegr a De Cymru lle mai'r Cwmni yw deiliad y Drwydded Ddosbarthu.. Rhaid iddo, dan amodau'r drwydded, gynnig cysylltiadau addas ar y gost isaf i bobl sy'n dymuno cael eu cysylltu i'r system ddosbarthu yn ardaloedd y Drwydded.

Dan Atodiad 9 i'r Ddeddf Trydan, fel y'i gwellwyd, rhaid i WPD "ystyried dymunoldeb" gwarchod harddwch naturiol a "cheisio gwneud popeth y gall ei wneud o fewn rheswm i leihau" effaith ei weithgareddau ar gefn gwlad, nodweddion daearegol a ffisiograffigol, blodau, planhigion, a gwarchod safleoedd, adeiladau neu wrthrychau o ddiddordeb hanesyddol neu archeolegol pan fydd WPD yn:-

- Cynllunio i osod gwifrau trydan (uwchben neu dan ddaear) i gyflenwi unigolyn neu gymuned
- Gwneud gwaith arall mewn cysylltiad a gweithrediad, a chynnal a chadw'r system ddosbarthu

Mae WPD yn ceisio: -

- Sicrhau bod ei weithgareddau'n cael cyn lleied o effaith a phosibl ar yr amgylchedd hanesyddol a naturiol
- Gosod gwifrau uwchben gyda gofal ac ystyriaeth am yr effaith weledol ac ar gadwraeth natur cyn belled ag y bo hynny'n bosibl
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddewis lle i roi gwifrau dan ddaear mewn mannau sensitif addas neu i wella golwg cefn gwlad, trefi neu bentrefi, tra'n ystyried hefyd safleoedd o ddiddordeb arbennig yn archeolegol neu o ran cadwraeth natur.

I wneud hyn, bydd WPD: -

- Ddim ond yn codi llinellau ar hyd llwybrau newydd neu is-orsafoedd mewn lleoliadau newydd pan nad yw'n bosibl yn economaidd i uwchraddio'r system ddosbarthu i gyrraedd safonau diogelwch Dosbarthu, neu mewn llefydd y rhagwelwn gynnydd mewn galw am drydan na all gael ei ddiwallu mewn ffyrdd eraill neu lle mae angen cysylltiadau i gwsmeriaid.

- Yn ceisio osgoi, lle mae hynny'n ymarferol ac o fewn rheswm, roi offer newydd mewn ardaloedd sydd wedi eu neilltuo'n genedlaethol neu ryngwladol oherwydd eu harwyddocâd o ran tirwedd, bywyd gwyllt, hanes neu ddiwylliant: Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Arbennig, Mannau i Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan gynnwys Gwarchodaeth Arbennig; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar; Gwarchodfaoedd Natur Cenedlaethol; Arfordiroedd Treftadaeth; Safleoedd Treftadaeth Byd-eang; henebion cofrestredig a safleoedd o ddiddordeb hanesyddol ("safleoedd wedi eu rhestru"). Os y bydd angen gosod offer yn y fath leoliadau, bydd WPD yn ceisio osgoi cael effaith mawr ar safleoedd rhanbarthol neu leol, rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod ac ar bioamrywiaeth a materion daearegol eraill o fewn yr amgylchedd ehangach, a chymeryd mesurau i ddiogelu safleoedd hanesyddol. Lle bo hynny'n ymarferol ac o fewn rheswm, byddwn ym cymryd cyfleoedd i wella nodweddion bioamrywiaeth a daearegol safleoedd o'r fath

- Yn cadw gofnod ddaearyddol o safleoedd y "safleoedd wedi eu rhestru" uchod

- Yn chwilio am gyngor arbenigol os yw'n hanfodol gweithio ar safleoedd o ddiddordeb archeolegol, hanesyddol, bioamrywiaeth nau ddaearegol, gan weithio'n agos gydag arbenigwyr cymwys a phrofiadol.

- Yn ymgynghori gyda Cynghorau Dosbarth ynglŷn a phob gwifren uwchben newydd. Pan fo'r rhain yn ymwneud a foltedd o fwy na 33kV, byddwn hefyd yn ymgynghori'n wirfoddol gyda Chynghorau Plwyf hefyd. Gyda gwifren uwchben o foltedd 132kV, byddwn hefyd yn ymgynghori gyda Chynghorau Sir.

- Yn ymgynghori gydag Awdurdodau Lleol ar yr angen i wneud asesiad o effaith amgylcheddol pan ydym a, godi mwy na 1km o wifren uwchben newydd o 33kV neu fwy.

- Yn adolygu a chynnig sylwadau ar gynlluniau hirdymor cynghorau er mwyn tynnu sylw buan at yr angen i gynlluniau ystyried isadeiledd strategol WPD.

- Yn ymgynghori gyda chyrff statudol, llywodraeth leol a thirfeddianwyr perthnasol pan fo adeiladwaith newydd yn cael effaith fawr ar harddwch, i'n helpu ni i adnabod, asesu a chymeryd camau i leihau'r

effaith cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol ac o fewn rheswm. Gall hyn gynnwys rhoi adnoddau i sgrinio rhai is-orsafoedd a lleoliadau eraill fel y mae anghenion yn newid.

- Yn sicrhau bod safle 'n cael ei ddychwelyd, cyn belled a phosibl, i'w gyflwr cychwynnol ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

- Yn hysbysu staff a chontractwyr o'r angen i fod yn ymwybodol o ystyriaethau amgylcheddol ac i cyd-fynd a pholisïau WPD. Lle mae WPD yn gwneud profion sŵn, byddwn yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant gan gyrff allanol cydnabyddedig. Byddwn yn cydgysylltu'n wirfoddol gyda Swyddogion Iechyd Amgylcheddol ar Awdurdodau Lleol i drafod cwynion am sŵn ac yn rhannu canlyniadau profion gyda nhw.

- Byddwn yn disgwyl safonau amgylcheddol tebyg gan ei cyflenwyr a'n contractwyr. Pan fo trydydd yn gwneud y gwaith fydd yn cael ei fabwysiadu'n hwyrach gan WPD dan raglen Ofgem, Cystadleuaeth mewn Cysylltiadau, rydym wedi ceisio sicrhau drwy Ofgem bod gofynion addas yn eu lle.

- Yn ceisio lleihau gwastraff, ac yn ailgylchu. Mae WPD yn ailgylchu offer swyddfa megis gwydr, cerdyn a inc argraffwyr, yn ogystal ac offer metel, olew, pren ac offer trydanol. Rydym yn rhoi cyfrifiaduron, offer swyddfa a ffonau nad ydym mo'u hangen bellach i sefydliadau elusennol pan fo hynny'n bosibl.

- Yn ymchwilio i, yn buddsoddi mewn a'n adolygu'r holl dechnoleg newydd sy'n berthnasol i'r busnes, ac yn ystyried ei effaith ar yr amgylchedd. Yn ceisio defnyddio technoleg i leihau nifer a maint yr offer sydd angen ei ddefnyddio.

- Yn cymeryd gofal arbennig a'r mesurau diogelwch addas wrth ymdrin a, neu gael gwared a deunyddiau all fod yn beryglus.

- Yn defnyddio ymgynghorwyr allanol lle nad yw'r arbenigedd cywir ar gael o fewn y cwmni.